

# MUSIC. THEATRE. WALES.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

07.12.22

Yn Music Theatre Wales rydym yn ymrwmo i gyflawni gwell cydraddoldeb fel sefydliad ac fel cyflogwr, ac yn anelu at sicrhau na fydd unrhyw un yn cael eu trin yn llai ffafriol o ganlyniad i fod â nodwedd warchoddedig. Credwn fod hyn yn fater o gyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol, ac nad yw cwotâu yn helpu i greu newid os na fydd diwyllianau'n newid o fewn sefydliadau. Ac mae angen i newid ddigwydd drwy bob rhan o'n sefydliad – yn y gwaith rydym yn ei wneud a'r bobl sy'n ei greu; y bobl rydym yn eu cyrraedd; bwrdd yr ymddiriedolwyr a'n staff.

Ein cenhadaeth yw cyflwyno opera fel ffurf ar gelfyddyd sy'n ddeinamig a chyfoes, sy'n mynd i'r afael â'r presennol heb ddibynnu'n unig ar *repertoire* ac arferion y gorffennol. Rydym yn awyddus i ddileu'r rhwystrau strwythurol a chymdeithasol sydd wedi atal nifer o artistiaid rhag gweithio ym myd yr opera, yn enwedig yng nghyd-destun greu gwaith newydd. Ein cenhadaeth wrth symud ymlaen yw gweithio gydag artistiaid sydd wedi cael eu hanwybyddu neu eu heithrio o fyd yr opera i greu gwaith sy'n siarad â'r gymdeithas gyfoes ac yn ymgysylltu â chynulleidfa newydd. Credwn, os na fyddwn yn gweithio gydag artistiaid a fydd yn dod â straeon newydd a gwahanol agwedd at gerddoriaeth, theatr a pherfformio, yna ni fydd opera'n llwyddo i ddatblygu i fod y ffurf gyfoes, ddeinamig mae'r gallu ganddi i fod.

Rydym yn awyddus i weld bod effaith tymor hir y Cynllun hwn yn dod â newid go iawn i amrywiaeth ein cwmni – y bobl rydym yn eu cyflogi a'r Ymddiriedolwyr, yr artistiaid rydym yn gweithio gyda hwy, y gwaith rydym yn ei greu a'r gynulleidfa rydym yn ei denu. Fel cwmni bychan a chanddo enw da yn artistig, ac sy'n gweithio mewn sector sydd eisoes yn bur bwerus, credwn y gallwn ddylanwadu ar y rhai o'n cwmplas ni a chefnogi newid y tu hwnt i MTW. Rydym yn gweithio tuag at fynediad llawer ehangach a llawer mwy o amrywiaeth yn y gwaith o greu opera a'r rhai sy'n dewis cael mynediad ato.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlygu ymrwymiad Music Theatre Wales i gwrdd â gofynion y Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac yn cefnogi saith nod llesiant deddf Llywodraeth Cymru – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae gan y Cwmni Bolisi Iaith Gymraeg ar wahân sy'n cael ei gadarnhau'n flynyddol gan y Bwrdd.

## Ein Cynllun

### Ein Bwrdd

Ar hyn o bryd mae gennym naw o Ymddiriedolwyr – pedair menyw (gydag un ohonynt yn Gadeirydd) a phum dyn. Mae gennym ddau Ymddiriedolwr o'r Mwyafrif Byd-eang, cynrychiolydd LGBT+, ond neb sy'n anabl. Mae'r ystod oedran yn ymestyn o'r 30au cynnar i'r 70au.

Bwriadwn ddatblygu amrywiaeth ein Bwrdd i lefelau sy'n unol â lleiafswm y ffigurau sy'n berthnasol i boblogaeth Cymru. Byddwn yn ymdrechu i gynnal cydbwysedd rhwng y rhywiau, a'n nod yw sicrhau bod o leiaf ddau aelod o'r Bwrdd bob amser yn siaradwyr Cymraeg.

**Gweithredu:** Mae Datblygu ac Amrywiaethu'r Bwrdd wedi bod yn eitem ar agenda pob cyfarfod o'r Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r Bwrdd wedi ymrwmo'n llawn i glywed gan, a chael eu harwain gan, ystod eang o bersbectifau. O ganlyniad, byddwn yn croesawu siaradwyr gwadd a chanddynt nodwedd(ion) (g)warchoddedig i siarad yng nghyfarfodydd y Bwrdd ar drefniant rheolaidd, i gyflwyno eu profiad byw o'u nodwedd(ion) (g)warchoddedig eu hunain, rhoi cipolwg i ni ar eu bywydau, a dangos pa newidiadau y dylem eu gwneud. Bydd y siaradwr cyntaf yn mynychu cyfarfod cyn diwedd 2022.

**Gweithredu:** Cyn diwedd 2022 byddwn yn penodi Cefnogwr Amrywiaeth a sefydlu Grŵp Ymgynghorol ar Gydraddoldeb ar gyfer y Bwrdd. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith nad pawb sydd â'r amser na'r cymhwyster i allu gwirfoddoli fel aelod o'r Bwrdd, ac eto mae arnom angen eu dirnadaeth a'u cyngor. Yn ddelfrydol, rydym yn awyddus i weld yr artistiaid rydym yn gweithio gyda hwy, yn enwedig yr artistiaid o'r Mwyafrif Byd-eang, yn dylanwadu ar y modd y dylai'r cwmni ddatblygu. Rydym felly'n edrych ar wahanol opsiynau o dalu pobl am yr amser sydd ei angen i gymryd rhan yn y grŵp hwn; ni fyddai'r grŵp yn is-bwyllgor o'r Bwrdd, ond byddai'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Bwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol iddo.

**Gweithredu:** I gael gwell amrywiaeth, rydym wedi bod yn ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau ac ymgyrchoedd sy'n bodoli i sicrhau bod sector y celfyddydau'n chwarae rhan holl bwysig yn y gwaith o greu cymdeithas fwy cyfiawn. Mae angen i ni adeiladu ar y gwaith hwn, yn cynnwys rhoi ystyriaeth weithredol i bob un o'r naw nodwedd warchoddedig, a sicrhau na fyddwn byth yn eithrio neb am resymau megis oedran, anabledd, hil, cred, rhyw, rhywedd neu feichiogrwydd. Mae ein rhaglen New Directions yn dod â ni i gysylltiad ag artistiaid o'r mwyafrif byd-eang, ac rydym yn datblygu rhwydweithiau newydd lleol a rhyngwladol ar gyfer yr artistiaid hynny. Gobeithiwn y bydd hyn yn denu mwy o ddiddordeb yn ein gwaith a mwy o gefnogaeth gan gymunedau nad ydym wedi bod mewn cysylltiad â hwy yn y gorffennol.

**Gweithredu:** Rydym yn datblygu patrwm o hyfforddiant rheolaidd ar gyfer ein Bwrdd, gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2021 gyda hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol.

### **Ein gweithlu**

Rydym yn gweithio gyda thîm bychan o staff – tri chyflogai (un amser llawn, dau rhan amser) ac un person llawrydd sy'n arwain ar ochr artistig a chynhyrchu ein rhaglen New Directions. Mae hyn yn creu tîm canolog o bedwar: un gwryw a thair menyw. Mae un aelod o'n staff yn anabl, ac mae un yn Ddu.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda 2 Ymgynghorydd y Wasg llawrydd, a'r ddwy yn fenywod – mae un yn Ddu ac yn byw yn Llundain, a'r llall yn siarad Cymraeg.

Gyda Future Directions, ein rhaglen ar gyfer pobl ifanc greadigol, rydym yn gweithio i gyflawni lefelau newydd o amrywiaeth, a hynny ymhlith y staff yn ogystal â'r cyfranogwyr ifanc eu hunain. Arweinir Future Directions gan 4 artist llawrydd: dwy fenyw a dau wryw. O'r pedwar mae un yn ddu, un yn hoyw, un yn siarad Cymraeg ac un yn dysgu Cymraeg. Hyd yn hyn, mae 9 o Bobl Ifanc (15–24 oed) wedi dod yn aelodau o Gwmni Ifanc MTW drwy Future Directions, a byddant yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddylanwadu ar waith MTW yn awr ac yn y dyfodol. O'r 9 sydd bellach yn Aelodau Ifanc o'r Cwmni mae 4 menyw, 3 gwryw (yn cynnwys un gwryw trawsryweddol), mae 2 yn uniaethu fel anneauaid a 4 yn niwro-amrywiol a/neu a chanddynt anghenion dysgu sy'n ymwneud â gwahaniaethau genetig. Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau partner i gyflawni'r lefel hon o amrywiaeth.

Cafodd ein cynhyrchiad teithiol diweddar, sef *Violet* gan Tom Coult ac Alice Birch, ei gyfarwyddo a'i gynllunio gan dair menyw – dwy ohonynt o'r Mwyafrif Byd-eang – gyda'r sain electronig yn cael ei chreu gan gyfansoddwr sy'n fenyw o'r Mwyafrif Byd-eang.

Caiff ein cynhyrchiad sydd ar y gweill – dan y teitl gwaith *House of Jollof Opera* (rhan o'n rhaglen New Directions) – yn cael ei ysgrifennu a'i gyfarwyddo gan 2 artist Cymreig o'r Mwyafrif Byd-eang, a bydd yn gyd-gynhyrchiad gyda Fio Theatre, sy'n gwmni dan arweiniad y Mwyafrif Byd-eang. Gall hefyd o bosib gynnwys tair iaith, sef Saesneg, Cymraeg a Yoruba.

Gan gymryd cyngor gan gorff allanol, cafodd ein proses recriwtio ddiweddar am Grëwyr Cerddoriaeth ar gyfer ein rhaglen Future Directions ei gweithredu mewn dull newydd, gyda'r nod o fod mor agored a hygyrch ag y bo modd i gynnwys yr ystod ehangaf posibl o artistiaid: Galwad Agored, yn defnyddio cynifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol ag y bo modd, ac ymgysylltu â rhwydweithiau eraill, gan ddangos yn glir ein bod yn awyddus i weithio gyda phobl o wahanol gefndiroedd cerddorol a diwylliannol; Gweminar agored oedd yn esbonio'r rhaglen a pham bod MTW yn ei rhedeg, yn cynnwys panel amrywiol; cymorthfeydd un-i-un ar gyfer ymgeiswyr posibl oedd am ofyn cwestiynau pellach i'w helpu i lunio eu cais; proses gychwynnol o hidlo'r ceisiadau a'u gwneud yn ddi-enw gan berson nad oedd yn cymryd rhan yn y cyfweiliadau. Mae'r tri pherson ar y panel cyfweld yn cynnwys un siaradwr Cymraeg ac un artist Du.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr amrywiaeth meddwl o fewn ein timau ac yn gwbl ymroddedig i gofleidio a gwneud y gorau o dalentau pobl awtistig a rhai sy'n byw gyda dyslecsia, ADHD a mathau eraill o amrywiadau niwrowybyddol. Byddwn bob amser yn ymdrechu i wneud addasiadau priodol yng nghyd-destun recriwtio, gweithleoedd a phrosesau gwaith er mwyn bod yn gwbl ginhwysol i bobl a chanddynt wahanol anghenion a dulliau o weithio.

**Gweithredu:** Byddwn yn parhau i adolygu'r prosesau recriwtio rydym yn eu defnyddio i ddenu staff newydd. Byddwn yn parhau i gysylltu â sefydliadau allanol sydd eisoes yn cyflogi ac yn gweithio gyda gweithlu amrywiol, yn lleol a ledled y Deyrnas Gyfunol; byddwn yn ymgynghori â chydweithwyr o'r Mwyafrif Byd-eang a rhai sy'n Anabl; byddwn yn archwilio dulliau gwahanol o gyrraedd pobl drwy wahanol blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, gan weithio gyda sefydliadau sydd eisoes wedi sefydlu rhwydweithiau gyda chymunedau amrywiol.

**Gweithredu:** Byddwn yn cyfeirio at y pecyn Recriwtio Amrywiaeth a'r pecyn datblygu gweithlu a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr drwy gyfrwng Clear Assured.

**Gweithredu:** Drwy New Directions byddwn yn parhau'r broses o weithio gydag artistiaid o'r Mwyafrif Byd-eang sydd wedi eu sefydlu yn eu meysydd eu hunain, ond sy'n newydd i'r cwmni ac i fyd yr opera.

**Gweithredu:** Byddwn yn cydbwysu cyflogi timau creadigol ar gyfer ein gwaith perfformio yn ôl eu gwledigaeth artistig a chydbwysedd y cydraddoldeb ar draws ein gwaith, yn cynnwys cyfarwyddwyr, cynllunwyr ac arweinwyr benywaidd, artistiaid o'r Mwyafrif Byd-eang a gweithwyr creadigol anabl.

**Gweithredu:** Byddwn yn parhau i weithio gydag ymgynghorydd castio a chanddynt enw da am gefnogi castio cantorion o gefndiroedd amrywiol. Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn cynnwys o leiaf un person nad yw'n wyn ar y panel clyweliadau.

**Gweithredu:** Byddwn yn recriwtio staff cefn llwyfan drwy rwydweithiau proffesiynol sefydledig megis Mandy, ac yn rhoi mwy o bwysau ar y sefydliadau hyfforddi i gefnogi datblygu gweithlu mwy amrywiol o ran y staff rheoli llwyfan a chefn llwyfan. Wrth i ni ddechrau cyflogi timau creadigol mwy amrywiol, byddwn hefyd yn gweithio gyda hwy i recriwtio'r timau cefnogi y bydd arnynt eu hangen, a bydd hyn yn anrffod yn arwain at gysylltiadau newydd a mwy amrywiol ar gyfer MTW.

**Gweithredu:** Ar gyfer pob cynhyrchiad yn ein hedefyn Perfformiad Byw/Live Performance, ein bwriad yw cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg. Pryd bynnag y byddwn yn recriwtio, awn ati i hyrwyddo'r swyddi gwag ar draws y llwyfannau a'r rhwydweithiau Cymraeg.

**Gweithredu:** Yn ystod 2021 derbyniodd y staff craidd ddwy rownd o hyfforddiant mewn EDI a rhagfarn anymwybodol. Darperir hyfforddiant bellach ar drefniant rheolaidd.

### **Y gelfyddyd rydyn ni'n ei chreu**

Mae MTW yn bodoli er mwyn cyflwyno opera fel ffurf gyfoes ar gelfyddyd. I wireddu hyn, mae angen i'r gelfyddyd rydyn ni'n ei chreu adlewyrchu ac ymgysylltu â cymdeithas fel y mae hi ar hyn o bryd, ac nid fel yr oedd ar un adeg.

Tra bod hyn yn weithred gymdeithasol hanfodol, gan sicrhau bod y celfyddydau yn wir ar gyfer pawb, mae hi hefyd yn genhadaeth artistig holl bwysig. Trwy weithio gydag artistiaid nad ydynt erioed wedi cymryd rhan ym myd yr opera – oherwydd eithrio a ganfuwyd yn ogystal ag eithrio go iawn – byddwn yn dod â bywyd newydd i'r ffurf ar gelf rydym yn ei charu: artistiaid newydd, straeon newydd, dulliau cerddorol newydd, a chynulleidfa newydd. Rydym yn ystyried hyn fel cyfle creadigol cyffrous.

Bydd hyn yn cyflwyno newid sylweddol i'r artistiaid rydym yn gweithio gyda hwy, a natur y gwaith rydym yn ei greu, a chaiff ei yrru gan dri nod:

- ! Gweithio gydag artistiaid profiadol o wahanol gefndiroedd diwylliannol, a fydd yn dod â syniadau newydd i opera fel modd o adrodd straeon trwy gerddoriaeth
- ! Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd gyda gwaith sy'n berthnasol i bwy ydyn nhw gan artistiaid o'u cymunedau eu hunain, boed y rheiny'n ethnig, daearyddol, yn ymwneud â'r iaith Gymraeg (a'r posibilrwydd o ieithoedd eraill) a phrofiadau byw eraill
- ! Gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau

**Gweithredu:** Bydd ein gwaith yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol – o ran ei iaith gerddorol, y straeon rydym yn eu hadrodd, perthnasedd y materion y mae ein gwaith yn eu harchwilio, y modd y caiff ein gwaith ei gyflwyno, a'r cynulleidfaoedd rydym yn eu cyrraedd. Rydym yn creu dulliau newydd o gyflwyno opera – fel gwaith digidol; mewn gwaith ar ffurf byr a gynigir i gymunedau yn eu lleoliad eu hunain; fel Celf Stryd; fel gwaith wedi'i seilio yn y theatr a gaiff ei greu mewn ffordd cwbl newydd mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill; gyda gwaith dan arweiniad pobl ifanc.

**Gweithredu:** Byddwn yn creu rhagor o waith digidol, gan alluogi llawer mwy o bobl i'w weld, yn enwedig y rhai na allant fynychu perfformiad byw. Ni fydd ein gwaith digidol yn canolbwyntio'n bennaf ar gipio a darlledu perfformiad byw; bydd yn dod yn blatfform creadigol yn ei hawl ei hun. Gyda New Directions byddwn yn creu gwaith ar gyfer cynulleidfaoedd cwbl newydd, a llawer ohonynt heb (eto) fynychu perfformiad byw confensiynol. Bydd pob gwaith digidol ar gael gydag isdeitlau Saesneg a Chymraeg (ynghyd ag ieithoedd eraill yn ôl yr angen), a bydd ar gael mewn fersiynau sy'n cynnwys sain-ddisgriifiad.

### **Y bobl rydym yn eu cyrraedd**

**Gweithredu:** Drwy gyfrwng y gwaith newydd rydym yn ei greu, byddwn yn datblygu'r ystod o artistiaid proffesiynol ac ifanc rydym yn gweithio gyda hwy, a'r cynulleidfaoedd y byddwn yn eu cyrraedd. Byddwn yn cyflawni gwaith dan arweiniaid artistiaid sy'n datblygu eu gwaith creadigol hwy eu hunain a'r ffurf ar gelfyddyd rydym yn gweithio ynddi. Byddwn yn cyflawni gwaith dan arweiniad y gymuned, sy'n defnyddio adrodd straeon mewn cerddoriaeth fel dull o ddatblygu llais mynegiannol, syniadau a gallu creadigol y gymuned. Byddwn yn galluogi pobl ifanc greadigol i ddatblygu eu sgiliau creadigol, eu dulliau o gydweithio, a'u hyder fel artistiaid ac fel unigolion. Byddwn yn cynnig llwybr amgen i alluogi pobl i ddefnyddio opera fel modd o adrodd stori mewn cerddoriaeth sy'n berthnasol i'w bywydau eu hunain ac sydd ar yr un pryd yn cynnig dull newydd o alluogi opera i esblygu fel ffurf gwbl gyfoes ar gelfyddyd a chanddi ran bwysig i'w chwarae gyda ac ar gyfer gymunedau ledled Cymru a'r DU yn y 2020au a thu hwnt.

**Gweithredu:** Rydym yn cydnabod bod angen i ni ddatblygu gwell ffordd o gasglu data er mwyn deall pwy rydym yn eu cyrraedd gyda'n gwaith, a pha feysydd mae angen i ni eu gwella i ymgysylltu cymaint ag y gallwn, yn enwedig mewn perthynas â chydarddoldeb a chynhwysiant.

**Gweithredu:** Byddwn yn edrych ar wahanol ddulliau y gallem o bosib eu defnyddio i gynhyrchu gwaith gyda gwirfoddolwyr i helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gymuned, cyfranogiad a pherchenogaeth. Bydd angen i hyn ddod o waith artistig penodol gaiff ei wneud mewn perthynas uniongyrchol â chymunedau.

**Gweithredu:** Byddwn yn llunio partneriaethau newydd gyda sefydliadau allanol er mwyn ymestyn ein hymgysylltiad â phobl greadigol amrywiol ac i gynyddu gwybodaeth o'r gwaith rydym yn ei wneud.

Byddwn yn adolygu'r Cynllun Strategol hwn yn flynyddol.